**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**2/2/2024**

**Teitl:** Cyfrifon Terfynol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 a'r archwiliad perthnasol.

**Awdur:** Dewi A Morgan, Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletya (Swyddog Cyllid Statudol)
Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon statudol terfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, ynghyd ag adroddiad 'ISA 260' gan Archwilio Cymru yn manylu ar eu prif ddarganfyddiadau.

## 2. Y Penderfyniad a Geisir

**2.1 Gofynnir i'r Bwrdd ystyried a chymeradwyo'r:-**

- **Adroddiad 'ISA 260' gan Archwilio Cymru ar gyfer y BUEGC**
- **Datganiad o Gyfrifon terfynol y BUEGC (ôl archwiliad) am 2022/23.**

## 3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad

3.1 Cyflwynir yma y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2022/23. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 3 'ISA260' Archwilio Cymru.

3.2 Gofynnir i Gadeirydd y Bwrdd, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth, yn electronig (Atodiad 1 i adroddiad Archwilio Cymru) wedi i'r BUEGC gymeradwyo'r uchod.

3.3 Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Adrian Crompton) yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon.

**4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

4.1 Cyflwynwyd y Datganiad o Gyfrifon drafft 2022/23 (amodol ar archwiliad) i'r BUEGC ar 21 Gorffennaf 2023, pryd bu craffu priodol.

4.2 Mae'r cyfrifon terfynol a gyflwynir yma i'r BUEGC ar 2 Chwefror 2024 wedi cael eu harchwilio gan Archwilio Cymru.

4.3 Cyflwynwyd adroddiad ar sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf i'r Bwrdd ar 5 Mai 2023. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

**5. Goblygiadau Cyfreithiol**

5.1 Nodir yn Adran 12 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 bod cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwiliad gan archwilydd allanol a gymeradwyir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

5.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu bod yr holl Gyd-Bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Lle mae'r incwm neu wariant blynyddol dros £2.5m, pennir bod y cyd-bwyllgor yn "gorff perthnasol mwy" a bydd angen paratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol.

**6. Atodiadau**

Datganiad o Gyfrifon y BUEGC am 2022/23

Adroddiad Archwilio Cymru

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro – Corff Atebol:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol – Corff Atebol:**

Awdur yr adroddiad hwn.